**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 6 GORFFENNAF 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Carys Thomas, Jenny Jones, Elfyn Williams, Meinir James, Janet Knott, Eifion Jones, Viv Davies, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Nicola Jones, Philip Davies a Rheinallt Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Rhoddwyd cyfle i aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol godi materion gyda'r Cyngor

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 1af Mehefin 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau bod Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru ar gael ac felly byddai cais yn cael ei wneud. Nid oedd unrhyw sicrwydd er hynny y byddai'r prosiectau a gymeradwywyd yn cynnwys Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod arolygydd PEDW wedi ymweld â'r safle ac roeddid yn aros am ddiweddariad ar yr ymweliad. Nodwyd.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FP29/4 Pentrepoeth** – Nodwyd cynnydd gan y Cyngor Sir o ran cael caniatâd i newid y steiliau am gatiau er mwyn gwneud y llwybr yn fwy hygyrch. Roedd nawr angen cysylltu â thirfeddiannwr arall. Nodwyd.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Cadarnhawyd bod y cyfnod rhybudd gorfodaeth wedi dod i ben ar 14fed Mehefin gydag ymweliad i'w gynnal i gadarnhau a oedd hyn wedi'i ddilyn. Yn dilyn hyn, byddai angen penderfyniad a ddylid erlyn y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y cais cynllunio. Nodwyd pryder mewn perthynas â cherbydau'n gadael ac yn mynd i mewn i'r safle gyda llwythi llawn ond dim rhwydi i ddiogelu'r eitemau oedd yn cael eu symud. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
7. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Nodwyd bod yr arwyddion cod QR ar fin cael eu cwblhau. Roedd cysylltiad wedi cael ei wneud â'r Rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol a gynlluniwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Ymgynghoriad ar y Cyflwyniad Arfaethedig Orfodol 20mya ar Ffyrdd Cyfyngedig a 30 mya gyda Eithriad. Croesawyd y cynigion yn gynnes, fodd bynnag bydd y Clerc yn codi'r angen i sicrhau bod camau gorfodi digonol ar waith i sicrhau bod y cynigion hyn yn llwyddiant.

9. **Damweiniau ym Mancycapel -** Roedd y Cyngor yn aros am ymateb i gais i'r heddlu o dan ddeddf rhyddid gwybodaeth. Cafwyd cadarnhad ar y broses ar gyfer Gwylio Cyflymder Cymunedol fel a ganlyn:
    - Byddai angen i bob Gwirfoddolwr lenwi ffurflen fetio;
    - Byddai'r Heddlu wedyn yn cynnal asesiad risg;
    - Byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu.

    Bydd y posibilrwydd hwn yn cael ei hysbysebu a gwahoddir yr heddlu i drafod y mater yn uniongyrchol gyda Chynghorwyr ac unrhyw wirfoddolwyr a ddaw ymlaen.

    Derbyniwyd cynnig drafft cynnar gan y Cyngor Sir a fydd yn destun ymgynghoriad maes o law ar gyfer terfyn cyflymder o 40mya drwy Fancycapel. Byddai'r cynnig hwn yn cael ei groesawu'n fawr, nodwyd bod yr angen i atal goddiweddyd yn yr ardal yn hanfodol oherwydd teimlwyd gallai'r cynigion hyn ar ei hunan waethygu'r mater hwn.
10. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
11. **Digwyddiad Hyfforddi Diffibrilwyr –** atgoffwyd Aelodau o'r hyfforddiant diffibriliwr ar 11eg Gorffennaf.
12. **Digwyddiadau ymgynghori Ynni Bute** – Roedd cyfarfod gydag Ynni Bute wedi'i drefnu ar 19fed Gorffennaf i drafod y cynllun budd cymunedol. Byddai'r Cadeirydd, y Cynghorydd Sir Meinir James, y Clerc a Chadeirydd Pwyllgor y Neuadd Gymunedol yn bresennol. Nodwyd.
13. **Un Llais Cymru** – Cytunwyd taliad o £38.00 am gost y Modiwl Sgiliau Cadeirio a gynhaliwyd ar 25ain Mai.
14. **Rhoddion i Gofal Cancr Macmillan a SSAFA –** Derbyniwyd llythyrau diolch am roddion y Cyngor. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Banc Barclays –** Datganiadau. Cafodd y cysoniad banc ei gydlofnodi gan y Cyng Carys Thomas.
2. **Cadwch Gymru'n Daclus –** Gwybodaeth am gynllun Lleoedd Lleol i Natur a'r pecynnau garddio sydd ar gael. Nodwyd.
3. **Eglwys Santes Ann –** Gwybodaeth am y te prynhawn i godi arian i'r Eglwys ar 29ain Gorffennaf. Nodwyd.
4. **Latch –** Gwybodaeth amy y parti gardd i codi arian i'r Elusen ar 8fed Gorffennaf. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru –** Cylchlythyr. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth ar Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin i'w gynnal ar y 12fed Gorffennaf. Nodwyd.
8. **Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr Calon Tan a gwybodaeth am danau diweddar mewn ysguboriau.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Ymgynghori ar yr Adolygiad Cymunedol o'r holl Gynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig ar gyfer ardal Cymuned Llandyfaelog. Cefnogwyd y cynigion gan y Cyngor.

10. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd yr C2073 yng Nghroesyceiliog dros dro ar 21ain Awst am gyfnod o 3 diwrnod. Nodwyd.
11. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Newyddion Diweddaraf. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o ymchwiliad gorfodi mewn perthynas â gwaith tir anawdurdodedig, cael gwared â chloddiau, coed a newid y cwrs dŵr ar Lain 2, Bank House, Idole. Nodwyd.
13. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct –** Nodwyd.

## 7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Nododd y Cyngor derbyniad o £250.00 sef taliad yr hawliad yswiriant dros ben ar gyfer difrod cerbyd i ffens y cae.

## 8. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi'u gweithio ym mis Mehefin gyda cost o £560.00 yn cael ei gytuno. Cymeradwywyd taliad hefyd o £280.00 am waith a wnaed o dan y contract torri gwair yn Idole a Glanmorlais ar gyfer y flwyddyn 2023.

Roedd yr Atgyweiriwr wedi cadarnhau defnydd o'r cynnyrch selio ar draws y tri phanel gwybodaeth hanesyddol, gyda digon yn weddill i'w ddefnyddio ar gyfer y cyfnod gaeaf. Nodwyd.

## 9. Digwyddiadau Gymunedol 2023

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Gymunedol yn 2023 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
  - Nododd y Cadeirydd fod ymweliadau beirniadu ar gyfer y gerddi llysiau wedi'u cynnal.
  - Nododd y Clerc bod angen darparu gwybodaeth enwebi cyn gynted â phosibl ar gyfer adrannau'r Ardd Flodau.

- Cystadleuaeth Bwgan Brain;
  - Cyflwynodd y Clerc y Darian Ymdrech Gymunedol i'w hysgythru er cof am y Cyng Mair Stephens a'i defnyddio ar gyfer Cystadleuaeth Bwgan Brain neu Gystadlaethau Cymunedol eraill yn y dyfodol.
  - Noson Wobrwyo – Trafodwyd noson wobrwyo, cymeradwywyd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Clerc i wneud trefniadau ar y mater ac adrodd i'r aelodau.

## 10. Adroddiad Cyllid 2023-24

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 1af ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

## 11. Rheolau Sefydlog y Cyngor

Cyflwynodd y Clerc y Rheolau Sefydlog drafft diwygiedig i'r Cyngor eu hystyried. Mabwysiadwyd y ddogfen i'w defnyddio gan y Cyngor.

**12. Cynllunio**

**1. PL/06020** – Adeilad amaethyddol a Gwaith cysylltiedig, Coedlline, Llandyfaelog, SA17 5NT.
**2**. **PL/06140** - Estyniad llawr gwaelod i dy annedd unllawr - Ffynnon Berwyn, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DH.

**13. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Nododd y Cyng Carys Thomas ei diddordeb yn y mater hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth yr eitem - CFfI Llanismel -** Cytunwyd cyfraniad o £200.
2. **Nododd y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Carys Thomas ac Eifion Jones eu diddordeb yn y mater hwn a wnaed gadael y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth yr eitem. Etholwyd y Cyng Viv Davies yn Gadeirydd ar gyfer yr eitem - Eglwys Llandyfaelog – Atgyweirio Tŵr Cloch yr Eglwys -** Nododd y Clerc yn anffodus mai'r cyngor a dderbyniwyd oedd nad oedd caniatâd cyfreithiol i'r Cyngor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 1894 wneud cyfraniad tuag at gynnal a chadw adeilad yr Eglwys. Nodwyd hyn a bydd gwybodaeth ariannu posibl yn cael ei darparu i awdurdodau'r Eglwys.

**14. Cyfrifon**
**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| **1.** | **Disgrifiad** | **Cyflog** | **Costau** | **Cyfanswm Gros** | **Treth wedi tynnu ffwrdd** | **YG wedi tynnu ffwrdd** | **Cyflog Net** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mehefin a chostau** | **£679.06** | **£26.00<br>£11.70<br>£7.00<br>£46.10<br>£10.00** | **£779.86** | **£281.49** | | **£498.46** |

| | | |
|---|---|---|
| **2. Cyllid a Tollau EM** | **£562.80** | Tyniadau Mai - Mehefin |
| **3. Un Llais Cymru** | **£38.00** | Costau hyfforddiant (gweler eitem 5.13) |
| **4. Michael Leefe** | **£280.00** | Torri gwair (gweler eitem 8) |
| **5. Michael Leefe** | **£560.00** | Taliad Mehefin (gweler eitem 8) |
| **6. CFfI Llanismel** | **£200.00** | Rhodd (gweler eitem 13.1) |

**15. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
   a. Clawr heol yn Idole – Derbyniwyd adroddiad am glawr heol rydd yn Idole. Roedd hyn wedi ei nodi fel cyfrifoldeb Dŵr Cymru. Nodwyd.
   b. Casgliadau sbwriel yn Lan Cottage – Derbyniwyd adroddiad nad oedd bagiau du yn cael eu casglu o'r ardal ers y newid i drefniadau casglu.
   c. Baw cŵn – Heol y Lan – Derbyniwyd adroddiadau am broblemau baw cŵn yn ardal Heol y Lan ynghyd â'r angen am well arwyddion rhybudd.
2. Nododd y Cyng Janet Knott ei bod wedi mynychu'r Hyfforddiant Côd Ymddygiad a drefnwyd gan y Cyngor Sir ar 12fed Mehefin.
3. Nododd y Cyng Elfyn Williams fod yr offer codi sbwriel a brynwyd ar gyfer aelodau wedi cael ei ddefnyddio yn ddiweddar ar weithgaredd codi sbwriel yn ardal Idole.

4. Nodwyd bod glanhau strydoedd wedi'i wneud yn rheolaidd yn ardal Idole yn ddiweddar.
5. Nododd y Cyng Meinir James y posibilrwydd o ymweld â chyfleuster trin dŵr yng Ngharwe os oedd gan Gynghorwyr ddiddordeb mewn gwneud hynny. Teimlwyd aelodau fod hwn yn gyfle diddorol a bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau.
6. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau am y dŵr yn gollwng a’r twll yn y ffordd yn Heol Nantyglasdwr i ofyn a fydd modd symud y gwaith ymlaen.
7. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor Cymuned am gwynion mewn perthynas â gwartheg yn teithio o fferm leol ar hyd y lôn i mewn i Landyfaelog ac i Lôn Ceirw, gan arwain at bryderon ynghylch y llanast ar y ffordd a'r effaith ar ymylon yr heol a chloddiau. Nodwyd bod y mater hefyd wedi'i godi gyda'r Cyngor Sir.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 7fed Medi 2023.**